



Llansteffan



Bae Scott



Golygfa o'r aber



Castell Llansteffan

#DymaSirGar

#ThisisCarmarthenshire



Pam Cerdded?

Taith gerdded arfordirol arbennig yw hon sy'n mynd heibio'r Castell Normanaidd mawreddog ac yn cynnig golygfeydd godidog dros Fae Caerfyrddin a Ffynnon Antwn Sant. Honnir bod dŵr y Ffynnon hon yn gwella llawer o afiechydion! Mae'r daith hon hefyd yn cynnwys traeth tawel, diarffordd ac euraid Bae Scott. Mae teithiau'r ardal hon yn gyfuniad o olygfeydd arfordirol gwych a lonydd gwledig hyfryd. Graddiant graddol sydd i'r llwybrau hyn fel arfer, ac maent yn hawdd i'w dilyn. Yn aml gwelir cloddiau cyforiog o flodau o bob tu. **Dalier sylw:** Gall rhannau o'r teithiau fod yn fwdlyd hyd yn oed yn yr haf, felly argymhellir esgidiau addas.



Pa mor Hir?

Mae'r teithiau'n amrywio o un fer 3 cilometr (1.8 milltir) i un hir 7.7 cilometr (4.7 milltir) ar hyd rhywfaint o Lwybr Arfordir Cymru a thua'r tir drwy gefn gwlad prydferth.



Pa mor Anodd?

Mae'r daith gerdded fer i Ffynnon Antwn Sant (ar hyd y traeth os yw'r llanw allan) ac yn ôl ar y llwybr ar hyd y clogwyni, gan ymweld â'r castell, tua 3 cilometr (1.8 milltir) gan ddringo 62 metr (203 troedfedd).

Mae'r daith gerdded ganolig i Ffynnon Antwn Sant a pharhau ar hyd Lwybr Arfordir Cymru i Lord's Park a dychwelyd ar hyd y clogwyni, tua 5.6 cilometr (3.4 milltir) gan ddringo 144m (472 troedfedd).

Os am wneud taith hir, dilynwch gylch allanol y llwybrau sy'n cael eu hargymell. Mae'r daith hon yn 7.7 cilometr (4.7 milltir), gan ddringo 210 metr (688 troedfedd).



Man Cychwyn / Maes Parcio - Maes Parcio Traeth Llansteffan




Trafnidiaeth Gyhoeddus - ✓



Lluniaeth - ✓

Mannau o Ddiddordeb



- 1 Y Grîn** - Roedd y Fferi o Lanyfferi yn gollwng teithwyr ar y Grîn pan oedd y dŵr yn isel. pobl wedi bod yn cael eu hiachau yno ers y chweched ganrif.
- 2** Codwyd **y Plas** ar safle adeilad llawer cynharach yn 1788, mewn arddull glasurol gyda ffasâd deulawr cain a Tuscan Portico â phileri.
- 3** Mae **Eglwys Llansteffan** yn dyddio'n ôl i'r drydedd ganrif ar ddeg, ond yn ddi-au fe saif ar safle eglwys o gyfnod cynharach. Yn 1160 rhoddodd Geoffrey de Marmion, Arglwydd Llansteffan, yr eglwys i Knights Hospitaller a oedd yn gofalu am deithwyr a phererinion. Codwyd y tŵr yn y bymthegfed ganrif.
- 4** Cafodd **hen system caeau agored** canoloesol Llansteffan ei ffosileiddio yn siapiau'r caeau presennol. Mae'r dolenni S yn cynrychioli'r timau aredig canoloesol mawr.
- 5**
- 6**
- 7** Roedd **Ffordd y Brenin** yn bwysig yn y canol oesoedd gan gysylltu'r Fferiau â Thalacharn a Glanyfferi.
- 8** Ynghudd y tu cefn i ddrws yn y wal y mae **Ffynnon Antwn Sant**; honnir bod dŵr y ffynnon yn gwella llawer o afiechydon! Mae'r slab cerrig y tu mewn i'r strwythur muriog o amgylch y ffynnon yn honni fod
- 9** **Trwyn Wharley** - ar ddiwrnod clir mae'n bosibl gweld mor bell ag arfordir gogledd Dyfnaint, Ynys Wair a Phenrhyn Gŵyr.
- 10** Mae **Fferm Lord's Park** yn enghraifft nodweddiadol o fferm ystâd a ddaeth i fodolaeth wrth i'r caeau ddod yn gaeedig ac wrth i ystadau bonedd newydd gael eu trefnu'n ffermydd plas ac yn ffermydd tenantiaid.
- 11** **Castell Llansteffan** - Bryngaer Oes Haearn o'r chweched ganrif cyn Crist oedd y gaer gynharaf ar y safle hwn. Ar ddechrau'r ddeuddegfed ganrif adeiladodd y Normaniaid gaer o bridd a phren, a chodwyd y castell presennol erbyn y drydedd ganrif ar ddeg.
- 12** **Heol y Glo** - Mae enw'r heol yn dwyn i gof y diwydiant glofaol lleol a barodd tan yr 1920au. Daethid â glo o Gwm Gwendraeth rownd i Llansteffan ac i fyny afonydd Tywi a Thaf.